# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 5

DARPARIAETHAU NAD YDYNT OND YN GYMWYS I GONTRACTAU DIOGEL

## PENNOD 1

TROSOLWG

### 102 Trosolwg o’r Rhan

(1) Nid yw Penodau 1 i 5 o’r Rhan hon ond yn gymwys i gontractau diogel, ac maent yn ymwneud ag—

- (a) amrywio contractau diogel,
- (b) cyd-ddeiliaid contract yn tynnu’n ôl,
- (c) delio (hynny yw, cymryd lletywr a throsglwyddo’r contract), a
- (d) arddodi contractau safonol ymddygiad gwaharddedig (pan fo’r landlord yn landlord cymunedol neu’n elusen gofrestredig).

(2) Mae Pennod 6 yn cynnwys darpariaeth sylfaenol ynghylch trosglwyddo contract diogel i berson sy’n ddeiliad contract o dan gontract diogel arall; mae’r ddarpariaeth sylfaenol hon yn gymwys i gontractau diogel y mae’r landlord oddi tanynt yn landlord cymunedol.